# PWYLLGOR CRAFFU DATBLYGU, 20.03.12

Yn bresennol: Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Glyn Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Endaf Cooke, T.G. Ellis, O.P. Huws, Anne Ll. Jones, Charles W. Jones, Elin Walker Jones, Penri Jones, Keith Marshall, John W. Meredith, John P. Roberts, Owain Williams ac R.J. Wright; a'r Cynghorwyr John W. Jones a W. Roy Owen (Arweinyddion Portffolio) a'r Cynghorydd John G. Jones (aelod ex-officio)

**Swyddogion:** Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Sioned E.Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Ann Owen (Rheolwr Polisi Strategol Economi, Adfywio a Sgiliau), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Roland Evans (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Strategaeth a Datblygu), Gareth James (Rheolwr Craffu Corfforaethol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Alan Jones Evans

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Anne Ll.Jones fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir -
a) Dyfodol Parc Glynllifon gan ei bod yn aelod o Gyngor Coleg Meirion Dwyfor sy'n ran o Goleg Llandrillo.
b) Cadw'r Budd yn Lleol gan ei bod yn Gyfarwyddwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2011 fel rhai cywir.

Nododd y Cadeirydd y cytunwyd yn y cyfarfod paratoi i roddi eitem ar raglen y cyfarfod hwn ar "Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel (Ynni Niwclear ac Ynni Adnewyddol)" ond yn ddiweddarch 'roedd y Pennaeth Economi a Chymuned o'r farn ei bod yn gynamserol i'w drafod heddiw ond bwriedir ei drafod yn y dyfodol.

## 3. ARDALOEDD LLECHI

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Economi a Chymuned ar y gweithgaredd presennol ac arfaethedig i uchafu'r budd lleol o dreftadaeth yr ardaloedd llechi.

(b) Codwyd y materion canlynol gan aelodau:-

(i) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed Partneriaeth Ardal y Llechen ac yn benodol ardal Abergynolwyn, hysbysodd y Pennaeth Economi a Chymuned, o ran yr ardaloedd gwreiddiol, nid oedd Abergynolwyn yn ran o'r cymunedau a gyflwynwyd yn y cais ond 'roedd yn ran o'r ardal ehangach.

(ii) Mewn perthynas â Safle Treftadaeth y Byd Diwydiant Llechi Gogledd Cymru, ac yn benodol Safle Cyn Chwarel Dorothea, cyfeiriodd aelod at y trafodaethau a gynhaliwyd eisoes ynglyn â'r posibilrwydd i'r Cyngor gymryd y safle hon trosodd. Cyfeiriodd at erthygl a ymddangosodd yn y wasg yn ddiweddar parthed datblygu'r safle. Nododd bod yna gonsensws cryf yn Nyffryn Nantlle y dylid datblygu'r safle.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Economi a Chymuned, o ran y perchenogion honedig presennol, nid oes manylion i law ynglyn â'u cynlluniau i ddatblygu'r safle. Y cam cyntaf fydd cynnal cyfarfod gyda'r perchenogion newydd i gael gwybodaeth parthed eu cyswllt â'r safle a'u trefniadau fel perchenogion blaenorol ac i gael manylion am eu gweledigaeth. Nododd o ran Safle Treftadaeth y Byd mae hwn yn un o'r rhesymau pam bod gan UNESCO ddiddordeb yn y safle ac ardaloedd llechi. Cyfeiriodd at ardaloedd eraill megis Chwarel y Penrhyn, Bethesda a Llechwedd, Blaenau Ffestiniog lle mae yna ddiwydiant byw. Gofynnir am adnabod ardaloedd sydd o werth arbennig o fewn y dalgylch sydd â rhinweddau arbennig yn yr ardaloedd llechi. Y gamp fydd penderfynu pa ardaloedd sydd i'w gwarchod a'u rheoli.

(iii) Pwysleisiodd aelod y pwysigrwydd o gynnal trafodaethau â pherchenogion safle Dorothea cyn gynted â phosibl i ddatblygu'r safle.

(iv) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed Prosiect Twristiaeth Treftadaeth CADW, hysbysodd y Pennaeth y gwahoddwyd partneriaid i ddatgan diddordeb i fod yn rhan o'r prosiect hwn. Hybysodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod hwn yn broses partneriaeth ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a bod yna gyfle i ddatblygu cais sylweddol strategol ar y cyd ac er mwyn gwireddu hynny gwahoddwyd ymgeiswyr neu partneriaid i ymuno â'r Cyngor yn y prosiect ac ar sail datganiadau o ddiddordeb fe'u sgoriwyd a gwahoddwyd y rhai llwyddiannus i fod yn ran o'r prosiect. O ran Dyffryn Nantlle, ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb ffurfiol.

Nododd y Pennaeth ymhellach y derbyniwyd gwybodaeth ym Mai 2011 bod cais Diwydiant Llechi Gwynedd ar y rhestr fer, ac ar y pryd tybid y byddai'r Cyngor yn derbyn rhagor o fanylion erbyn Mehefin/Gorffennaf 2011 parthed y canllawiau i gyflwyno cais. Yn anffodus ni dderbyniwyd manylion am y canllawiau tan Ionawr 2012 a nododd y byddai'n broses hir-dymor a bydd angen mynd rhagddo â'r trefniadau llywodraethu.

(v) Mewn perthynas â Safle Treftadaeth y Byd, nododd y Pennaeth y sefydlwyd Grŵp Llywio er mwyn dechrau'r gwaith a fydd yn cynnwys aelodau etholedig o'r ardaloedd llechi. Nid yw'r cynllun yn aeddfed i gyflwyno cais yn Ebrill 2012. Derbyniwyd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru y gellir defnyddio arbenigeddau a'u staff hwy yn gysylltiedig â'r gwaith. Bwriedir penodi person sydd ag arbenigedd yn y gwaith hwn i arwain y gwaith. O ran Prosiect Twristiaeth Treftadaeth CADW a'r cais Ewropeaidd, 'roedd yn cael ei arwain gan CADW gydag amserlen gweddol gaeth ynghlwm ag ef a cheisiwyd codi ymwybyddiaeth y gwahanol gyrff/sefydliadau perthnasol at y prosiect. Nododd bod datblygu safle Dorothea yn brosiect ynddo'i hun a bydd angen yr adnodd i'w symud ymlaen gan na fyddai'n ran o brosiect Treftadaeth y Byd.

(vi) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cwblhau is-adeiledd Glynrhonwy, hysbysodd y Pennaeth bod yna waith ym mynd rhagddo ar hyn o bryd ynglyn â'r is-adeiledd trydan ar y safle.

(vii) Tynnodd aelod sylw y dylid cael cyflymder eithaf da ar gyfer band eang ar safle Glynrhonwy er ceisio denu busnesion i'r safle.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth y blaenoriaethwyd yn y pwyllgor hwn yn ddiweddar y safleoedd yn y rhaglen waith ac 'roedd prif safleoedd cyflogaeth yn y sir yn un o'r blaenoriaethau. Adnabuwyd safleoedd Trawsfynydd, Ferodo a Glynrhonwy fel y rhai i gael y system band eang. Parheir i drafod gyda Llywodraeth Cymru yr angen i gael system band eang llawer cyflymach. Nid oes penderfyniad o ran pwy fyddai'r darparwr ar ran Llywodraeth Cymru parthed band eang ond disgwylir cyhoeddiad yn eithaf buan. Addawodd roddi rhestr o'r blaenoriaethau i'r aelod.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y swyddogion perthnasol i nodi'r pwyntiau y cyfeirir atynt uchod.**

## 4. DYFODOL PARC GLYNLLIFON

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Economi a Chymuned y penderfynodd y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2009, wrth fabwysiadu'r strategaeth arbedion, arbed £79,870 drwy allanoli Parc Glynllifon. Rhoddodd fanylion am y proffil arbedion a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 1 Mawrth 2012 sy'n adlewyrchu'r camau a gymerwyd eisoes yn 2011/12 i sicrhau'r arbedion, ynghyd â phenderfyniad blaenorol y pwyllgor hwn i'r Cyngor barhau i reoli'r parc am gyfnod o ddwy flynedd gyntaf dan fwrdd trosiannol a fyddai'n paratoi'r ffordd ar gyfer rheolaeth tymor hir yn dilyn hynny.

(b) Codwyd y materion canlynol gan aelodau:-

(i) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed aelodaeth y Bwrdd Trosiannol Cysgodol, hysbysodd y Pennaeth bod yna ddau aelod o'r Cyngor ar y Bwrdd sef y Cynghorwyr O.P. Huws a John P. Roberts. Nid yw aelodaeth y Bwrdd wedi ei gadarnhau hyd yn hyn, oherwydd y newidiadau gyda uno'r colegau.

(ii) Datganodd aelod bryder am yr amserlen. 'Roedd Gweithgor Gwella Glynllifon wedi cyflwyno adroddiad ar y ffordd ymlaen ac 'roedd dymuniad i'r gweithgor barhau am gyfnod er gallu monitro'r datblygiadau. Nododd, os y cynhelir tradodaethau gyda'r coleg 'roedd angen cynnwys yr amcanion a osodwyd ar y dechrau. 'Roedd o'r farn y dylid cynnal cyfarfod o'r gweithgor yn ystod y pythefnos nesaf i gytuno ar benawdau'r cytundeb

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth mai penderfyniad y gweithgor yn wreiddiol oedd i drosglwyddo'r cyfrifoldebau i'r coleg ac adrodd yn ôl i'r gweithgor pan mewn sefyllfa i drafod penawdau'r cytundeb. 'Roedd y gweithgor eisoes wedi cytuno ar benawdau'r cytundeb o du'r Cyngor ond ni thrafodwyd telerau'r coleg oherwydd eu hamgylchiadau ar y pryd. Fodd bynnag, ers hynny, 'roedd sawl peth wedi newid, e.e. methu cadarnhau aelodaeth y Bwrdd Trosiannol. Nododd bod y coleg yn parhau heb ymrwymo i gymryd cyfrifoldebau. Edrychir am newid y trefniadau o ran gosod y caffi, y siop a'r unedau a bydd hynny'n ysgafnhau cyfrifoldebau'r Cyngor o ran rhedeg y siop a'r caffi. Bydd y Cyngor yn parhau i drafod opsiynau gweithredu i'r model newydd gyda'r coleg a phan geir cytundeb â'r coleg parthed y model, 'roedd o'r farn y dylid adrodd i'r gweithgor yr adeg hynny. Byddai cynnal cyfarfod ohono yn ystod y pythefnos nesaf yn gynamserol. Nododd bod yr erthygl a ymddangosodd yn y wasg yn gamarweiniol oherwydd nad oes bwriad i drosglwyddo'r cyfan o reolaeth y parc i'r coleg.

(iii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cael endid newydd ar y safle, hysbysodd y Pennaeth y rhoddir blaenoriaeth ar hyn o bryd i'r trefniadau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar diroedd Glynllifon. Yn y cyfamser, parheir â'r drafodaeth â'r coleg. Cyfeiriodd at agwedd arall i'r cynllun sef adnabod arbedion ariannol o £80,000 ac fe adnabuwyd arbedion o £40,000 hyd yn hyn ar y safle, gyda'r £40,000 sy'n weddill i'w ganfod yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Nododd bod cyfathrebu'n allweddol a chymerwyd camau eisoes i ailgydio yng Nghyfeillion Glynllifon. Nododd os na fyddai'r coleg yn awyddus i fynd rhagddo â rheolaeth y parc, yna efallai y byddai elfen o rôl i'r cyfeillion.

(iv) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed y feithrinfa goed, hysbysodd y Pennaeth nad oedd y feithrinfa yn gallu cynnig pris cystadleuol ac felly'n colli allan ar dendrau. Nododd ei bod yn gwneud colled ariannol i'r Adran Rheoleiddio ac oherwydd hynny penderfynwyd dirwyn y gwasanaeth i ben. Yn y cyfamser, gosodwyd yr uned i'r coleg er mwyn cryfhau'r hyfforddiant o du garddwriaeth a thrin coed ond ni fydd yn fenter fasnachol o hyn ymlaen.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn yr adroddiad a nodi'r pwyntiau y cyfeirir atynt uchod.**
**b) Bod angen edrych ar fyrder sut fath o aelodaeth fydd i'r Gweithgor yn nhrefn lywodraethol y Cyngor newydd.**
**c) Bod angen sicrhau parhâd dylanwad y Cyngor ar unrhyw drefniadau newydd.**

## 5. CADW'R BUDD YN LLEOL

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Economi a Chymuned yn rhoddi manylion am y cynllun a'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Nodwyd nad oedd rhai cwmniau lleol yn medru cynnig am gynlluniau mawr oherwydd effaith y dirwasgiad.

(b) Codwyd y materion canlynol gan aelodau:-

(i) Mewn perthynas â'r Prosiect Adfywio Canol Tref Blaenau Ffestiniog, tynnodd aelod sylw nad oes cyfeiriad yn yr adroddiad at y prif gontractwr.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned o ran y ddwy prif gontract a weithredir ar hyn o bryd, mai Cwmni Balfour Beatty yw'r prif gontractwr gyda Howard Bowcott yn is-gontractwr. Cyfeiriodd at gymal 4.5 o'r adroddiad sy'n nodi'r broses gaffael a gwnaed ymdrech i godi ymwybyddiaeth ymysg cwmniau lleol. Rhoddwyd cefnogaeth i gwmniau lleol, ond pan aseswyd y tendrau ffurfiol, yn anffodus nid oedd yr adran mewn sefyllfa i benodi cwmni lleol. 'Roedd o'r farn bod angen codi capasiti'r cwmniau lleol er eu galluogi i gystadlu gyda chwmniau cenedlaethol.

Nododd aelod bod y gwaith gan gwmni o Gaint a oedd yn gosod ceginau newydd mewn tai i Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn ddiffygiol a gofynnodd sut y gallai hyn ddigwydd ar ôl mynd drwy'r broses gaffael.

Nododd aelod syndod ar ddefnydd o gerrig môrglawdd o Ffrainc yn Nhywyn a melinau gwynt o Tsieina a Canada ym Mhen Llŷn.

(ii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed yr hyn y gellir ei wneud yn y dyfodol i geisio cadw'r budd yn lleol, hysbysodd y Pennaeth mai bwriad y cynllun hwn yw edrych sut y gallai'r Cyngor ymateb i'r sefyllfa. Nododd bod yna becyn o weithgareddau yn y cynllun yn amrywio o gefnogi'r sector preifat lleol i fod yn fwy cystadleuol i fod yn edrych ar gymalau arbennig yn y fframwaith gaffael, ac hefyd y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithio'n lleol. Canolbwyntir hefyd ar y prif fuddsoddiadau cyfalaf.

(iii) Nododd aelod bod Prosiect Pontio, Bangor wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithwyr a busnesion lleol yn cael blaenoriaeth ynghlwm â'r gwaith.

(iv) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cynllun Ysgol Ardal Bro Dysynni, hysbysodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned i'r cynllun gael ystyriaeth gan y Gweithgor Caffael parthed y cymalau a'r telerau y gellir eu hymgorffori i'r cytundeb. Tynnodd sylw at un egwyddor pwysig iawn a wynebai'r Cyngor o ystyried ffyrdd o gynyddu canran y cytundebau i gontractwyr lleol sef na allai unrhyw drefniant contract ddangos ffafriaeth i gwmniau lleol neu ar sail daearyddol.

(v) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed safle Atomfa Trawsfynydd, hysbysodd y Pennaeth na dderbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynglyn â statws Parth Menter ar y safle. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi bod y safle wedi ei adnabod fel un ffafredig a disgwylir cadarnhad yn yr wythnosau nesaf. Yn y cyfamser datganwyd diddordeb yn y safle gan fusnesion er na ddechreuwyd ar y broses o farchnata'r safle.

(vi) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed Amcan 1, cyfeiriodd y Pennaeth at gynllun rhwydweithio i alluogi busnesion i fod yn fwy cystadleuol ar gyfer ardaloedd a oedd o fewn Amcan 1.

(vii) Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y cynllun hwn yn un canolog o fewn y strategaeth economaidd ond 'roedd angen sicrwydd bod gwariant a ddeilliai o fuddsoddiad cyfalaf yn aros o fewn Gwynedd. Cyfeiriodd at ddau her sylweddol wrth ddatblygu'r cynllun tros y blynyddoedd nesaf sef y ffordd mae caffael am newid yn genedlaethol a sut y datblygir capasiti'r sector fusnes yn lleol. Nododd bod oddeutu 85% o holl fusnesion Gwynedd yn cyflogi llai na 10 o bobl leol. Cyfeiriodd at fuddsoddiad o £40m lleol ym mhrosiect Pontio, Bangor. Nododd hefyd bod y cais cynllunio ar gyfer Ysgol Ardal Bro Dysynni gerbron Pwyllgor Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y diwrnod canlynol. Tynnodd sylw hefyd at fuddsoddiad o £40m mewn ysgolion yng Ngwynedd yn ystod y dair blynedd nesaf.

(viii) Tynnwyd sylw gan y Cadeirydd at gymal 2.10 o'r adroddiad sy'n nodi ei bod yn gynamserol ar hyn o bryd yn nhermau swyddi a buddsoddiadau, ond bwriedir paratoi gwerthusiad o lwyddiant y cynllun ar ddiwedd y cyfnod. 'Roedd o'r farn bod angen diweddariad o'r sefyllfa yn weddol rheolaidd.

Nodwyd yr angen am gôd post lleol ar adroddiadau caffael.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r pwyntiau y cyfeirir atynt uchod.**

## 6. GWEITHGOR GWELLA MAES SGILIAU

a) Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Gweithgor Gwella Maes Sgiliau, y Cynghorydd Ioan Thomas, yn diweddaru'r aelodau ar y datblygiadau a'r sefyllfa bresennol.

Manylodd ar rhai o'r pwyntiau a drafodwyd yng nghyfarfod o'r Gweithgor ar 15 Mawrth 2012 fel a ganlyn –

- Oherwydd gofynion Llywodraeth Cymru bod newid yn angenrheidiol, a bod y Gweithgor wedi bod yn glir o'r dechrau bod cael ymrwymiad yr holl bartneriaid gan gynnwys y penaethiaid uwchradd yn allweddol.
- Nododd fod y penaethiaid wedi cael eu cynnwys yn natblygiad y model a bod y Gweithgor yn falch o'u hymateb hyd yma a'u parodrwydd i gydweithio.
- Gwelodd y Gweithgor y model yn rhoddi cyfle o ran darparu ar gyfer cyflogwyr lleol a chyfleon gwaith y dyfodol, ac hefyd cyfle o ran ymestyn y defnydd o'r Gymraeg.
- Un canfyddiad gan y Gweithgor o'u hystyriaethau oedd bod angen negeseuon positif er mwyn annog dysgwyr i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pob sefydliad dysgu, gan gynnwys y colegau.
- Nodwyd pryder yn y Gweithgor bod yna aneglurder diffiniadau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a diffyg data craidd.
- Parthed y model, adroddwyd bod y penaethiaid yn awyddus i gael cynrychiolaeth ar y Bwrdd Arweinyddiaeth ond 'roedd y Gweithgor o'r farn bod rôl gwahanol a strategol i'r lefel honno yn y model.
- O ran datblygiad pellach y gwaith, bod angen Memorandwm o Ddealltwriaeth fel sail cytundebol i'r cydweithio a chyflwynir drafft ohono er trafodaeth pellach gyda'r penaethiaid maes o law.
- Bod y penaethiaid yn gytûn y dylid cydweithio ar y memorandwm ac mai dyma'r ffordd ymlaen.
- Bod cais gan swyddogion i'r Gweithgor roddi arweiniad parthed y math o ddogfen fyddai ei hangen, a barn y Gweithgor oedd y dylid cael dogfen eithaf cadarn a chaled.
- Bydd angen sefydlu cerrig milltir clir o ran gweithredu.
- Cytunwyd gyda'r bwriad i anfon llythyr at gyrff llywodraethol ysgolion uwchradd Gwynedd sydd â chweched dosbarth gyda gwybodaeth o'r bwriadau hyd yma.

b) Codwyd y materion canlynol gan aelodau:-

(i) Pwysleisiodd aelod arall y pwysigrwydd o gael Memorandwm o Ddealltwriaeth cadarn iawn a'r angen i bawb ddeall bod newid yn angenrheidiol.

(ii) Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y bartneriaeth ddysgu rhwng Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn cydlynu'r gwaith hwn. 'Roedd cynrychiolaeth o'r ddau awdurdod lleol, y colegau a'r ysgolion uwchradd ar y bartneriaeth hon, gyda'r Cyngor hwn yn arwain y bartneriaeth. Mae'r penaethiaid wedi bod yn ran o'r broses o ddylunio a datblygu'r model a chynhaliwyd cyfarfod gyda holl benaethiaid uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn yn ystod yr wythnosau diwethaf i drafod y model drafft. Nodwyd rhai pryderon yn y cyfarfod ac 'roedd rhai yn awyddus iawn i gael gweld manylion y memorandwm ond o ran cyfeiriad y gwaith hwn, 'roedd yna gefnogaeth gan yr holl benaethiaid. Mae'r penaethiaid yn sylweddoli bod yna ofynion o du'r Llywodraeth i ymestyn y dewis i bobl ifanc ôl-16 gan ddarparu rhagor o gyrsiau a hynny yn wyneb y lleihad mewn cyllid a niferoedd dysgwyr. Nododd bod y model drafft yn seiliedig ar fwy o gydweithio, cyd-gynllunio, rhannu adnoddau, lleihau dyblygu a mwy o bartneriaeth rhwng yr ysgolion a'r colegau gan geisio sicrhau y cyflawnir amcanion y Llywodraeth drwy hynny. 'Roedd cefnogaeth gan y penaethiaid i'r gwaith a wnaed ar y model. Nododd mai'r unig ddewis arall fyddai cau'r chweched dosbarth yn ysgolion uwchradd Arfon ac Ynys Môn a chanoli'r ddarpariaeth ôl-16 mewn un neu ddau gampws yn yr ardal ond byddai oblygiadau hynny'n bell-gyrhaeddol i ddyfodol nifer o ysgolion uwchradd yr ardal. Mae'r model a ddatblygir yma yn wahanol i hynny ac yn seiliedig ar gydweithio a rhannu adnoddau a phartneriaethu agos

rhwng y gwahanol ddarparwyr. Nododd hefyd bod angen gwell trefn cynllunio yn y maes hwn a bod y model yn fodd o gyflawni hyn a sicrhau llwybrau dysgu ar draws y sefydliadau a fyddai'n cyd-fynd ag anghenion y farchnad lafur ac yn ymateb i ofynion cyflogwyr yr ardal o safbwynt yr ochr academaidd ac hefyd yr ochr alwedigaethol. 'Roedd yna gyfle hefyd gyda'r cynllun hwn i sicrhau gwedd leol i'r cwricwlwm yng Ngogledd Orllewin Cymru a fyddai'n adlewyrchiad o'r cyfleon sydd ar gael yn yr economi yn enwedig yn sgîl buddsoddiad a fyddai'n debygol o ddigwydd yn yr ardal.

(iii) Nododd aelod y dylid pwysleisio'r elfen bod y Gymraeg fel ethos a chyfrwng i redeg trwy bob strwythur ôl-16 a bod adnoddau priodol yn cael eu darparu ar gyfer hynny.

(iv) Mewn perthynas â chymal 2.8 o'r adroddiad, 'roedd aelod o'r farn y dylid cryfhau'r pwynt bwled sy'n cyfeirio at hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg fel cyfrwng addysgu, dysgu ac asesu gan gynnwys hefyd bod yr iaith Cymraeg yn sgil yn y gweithle ac y dylid hyrwyddo hynny'n ogystal.

Mewn ymateb, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y canolbwyntir ar hyn o bryd ar addysg ac hyfforddiant 16-19 trwy waith y bartneriaeth ond drwy fynd â'r model gam ymhellach gallai ddylanwadu ar hyfforddiant yn y gweithle maes o law.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn, nodi a chymeradwyo gwaith y Gweithgor Gwella Maes Sgiliau.**
**b) Nodi cynnwys y cynigion presennol ar gyfer siâp trefn cyd-gynllunio, comisiynu a delifro darpariaeth ddysgu ôl-16 ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.**
**c) Argymell bod y Gweithgor Gwella Maes Sgiliau, gyda'r aelodaeth bresennol hyd y gellir, yn dod yn grŵp ymgynghorol dan y drefn Cabinet newydd o fis Mai 2012 ymlaen.**

**7. ECONOMI GWYNEDD – TROSOLWG CHWARTEROL (CHWEFROR 2012)**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Economi a Chymuned yn rhoddi manylion am berfformiad yr economi yng Ngwynedd ar ddiwedd y chwarter ac ar ddiwedd y flwyddyn.

b) Codwyd y materion canlynol gan aelodau:-

(i) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed categoreiddio amaethyddiaeth dan y pennawd "gwasanaethau" yn yr adroddiad, hysbysodd y Pennaeth nad y Cyngor hwn a osododd y bandiau ac mai tabl cyflogaeth a nodir.

(ii) Cyfeiriodd aelod at gymal yn yr adroddiad sy'n nodi bod cyflog canolrif (median) i holl weithwyr llawn amser cyflogedig yng Ngwynedd yn 2011 yn £453.20, sef 90.5% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig ac 'roedd y ffigur cyfatebol i weithwyr rhan amser cyflogedig yn £148.40, sef 96.4% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Gofynnodd am fanylion am ganran y rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth mai 37% yw'r ganran. Ymhellach, gofynnodd yr aelod os oes canran cyflog yn y sector cyhoeddus a phreifat. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth ei fod yn ganran cyflog cyfartalog ar draws Gwynedd.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n bosibl efallai i gael manylion am gyfartaledd cyflog Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor ac Ysbyty Gwynedd sef y tri sefydliad cyhoeddus mwyaf yng Ngwynedd. Mae cyflog y sector cyhoeddus yn uwch na chyflog y sector preifat yng Ngwynedd ond mewn ardaloedd eraill mae

cyflog y sector preifat yn uwch na chyflog y sector cyhoeddus. Tynnodd sylw at ddatganiad diweddar Canghellor y Trysorlys lle mae'n edrych ar ardaloedd mewn gwahanol rannau o Brydain ac yn awgrymu peidio codi cyflogau yn y sector cyhoeddus mewn ardaloedd tlawd eu natur, ond yn hytrach cynyddu cyflogau yn y sector cyhoeddus mewn ardaloedd mwy cyfoethog eu natur. Mewn ardal fel Gwynedd sy'n ddibynnol iawn ar y sector cyhoeddus i yrru'r economi yn ei flaen, gallai hynny gael oblygiadau pell-gyrhaeddol a negyddol ar gyflwr yr economi ac ar y galw am wasanaethau a chynnyrch a fyddai'n effeithio ar hyfywdra'r sector preifat yn ogystal.

(iii) Gofynnodd aelod am wybodaeth am ganran y bobl ifanc sy'n allfudo o Wynedd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Polisi Strategol Economi, Adfywio a Sgiliau bod ffigurau o'r math hwn wedi eu paratoi'n flaenorol ond efallai eu bod yn eithaf hen erbyn hyn. Cytunodd i edrych beth oedd ar gael ac i anfon copi i'r aelod maes o law.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cyhoeddir manylion am ganlyniadau Cyfrifiad 2011 maes o law a bydd yn dangos symudiadau poblogaeth a'r tueddiad tros y 10/15 mlynedd ddiwethaf. Bydd yn nodi hefyd yr effaith ar yr iaith Gymraeg mewn llawer o ardaloedd.

(iv) 'Roedd aelod o'r farn y dylid anfon llythyr at Ganghellor y Trysorlys a'r Dirprwy Brif Weinidog yn datgan anfodlonrwydd ynglyn â'r awgrym i beidio codi cyflogau yn y sector cyhoeddus mewn ardaloedd tlawd eu natur.

(v) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y canran o bobl ifanc sy'n chwilio am waith, nododd y Pennaeth bod yna gynnydd sylweddol yn y nifer o bobl ifanc sy'n ddi-waith yng Ngwynedd ac 'roedd hynny'n creu pryder. Cedwir gwyliadwraeth ar y sefyllfa yn wyneb y lleihad yn y budd-daliadau yng Ngwynedd a'i effaith posibl ar yr ystadegau.

(vi) Gofynnodd aelod am wybodaeth am y nifer o bobl sydd wedi cartrefu yng Ngwynedd o Ddwyrain Ewrop ac wedi cael gwaith yma a'i effaith ar y bobl leol.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth nad yw'r wybodaeth yn wybyddus ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ymgymerwyd â gwaith yn y gorffennol gan Lywodraeth Cymru pan welwyd effaith gweithwyr o Ddwyrain Ewrop ar y sector dwristiaeth ac amaethyddiaeth ac efallai y gellir cael ystadegau yn deillio o'r gwaith hwnnw.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**
**b) Anfon llythyr at Ganghellor y Trysorlys a'r Dirprwy Brif Weinidog yn datgan anfodlonrwydd ynglyn â'r awgrym i beidio codi cyflogau yn y sector cyhoeddus mewn ardaloedd tlawd eu natur.**

Ar derfyn y cyfarfod, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf o'r pwyllgor cyn etholiad llywodraeth leol ym Mai 2012. Diolchodd i'w gyd-aelodau a'r swyddogion am eu cydweithrediad yn ystod tymor ei gadeiryddiaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.50pm